17/04/20

**Annwyl Riant / Warcheidwad / Ddisgybl,**

Rydym yn agosáu at ddiwedd gwyliau’r Pasg. Mae pedair wythnos wedi mynd heibio ers i ni fod yn yr ysgol ac mae effaith y pandemig CoVid yn dod yn fwy amlwg. Fodd bynnag, mae wedi bod yn galonogol i weld a chlywed sut rydych chi wedi bod yn treulio'r amser hwn.

Bydd llawer ohonoch eisoes wedi derbyn galwad ffôn gan aelod o staff. Byddwn yn cysylltu â PHOB disgybl a'u teuluoedd yn ystod yr amser hwn. Bydd hwn yn caniatáu ichi drafod sut mae pethau'n mynd; gofyn am gyngor a chefnogaeth neu er mwyn caniatáu i'r disgyblion gael sgwrs â'u hathrawon.

Mae'r ysgol yn rhan enfawr o'n bywydau a chredwch ni pan ddywedwn ein bod yn gweld eisiau ein disgyblion a'u brwdfrydedd dros ddysgu, eu personoliaethau amrywiol a rhyfeddol a'r hwyl a'r cyffro maent yn dod â i’r ysgol yn ddyddiol.

Bydd yr athrawon yn uwch lwytho tasgau a gweithgareddau pellach ar y platfform dysgu a bydd y rhain ar gael fore dydd Llun.

Ni allwn ddweud wrthych pryd bydd yr ysgol yn ailagor oherwydd, fel y gwyddoch, mae'r cyfnod ‘lockdown’ wedi'i ymestyn am o leiaf tair wythnos arall. Fel soniwyd eisioes, nid oes yr un ohonom erioed wedi profi unrhyw beth tebyg i hwn o'r blaen a byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch cefnogi hyd eithaf ein gallu. Peidiwch ag anghofio cysylltu trwy’r adran ‘Cysylltwch â Ni’ ar y wefan os oes angen unrhyw gymorth arnoch.

Rydym yn eich annog chi i gyd i ddilyn y cyngor gan y Llywodraeth er mwyn eich cadw chi a'ch teulu yn ddiogel ac rydym yn parhau i edrych ymlaen at yr amser y gallwn eich croesawu chi i gyd yn ôl i’r ysgol.

**Dear Parent / Guardian / Pupil,**

We are nearing the end of the Easter break. Four weeks have passed since we were in school and the impact of the CoVid pandemic is becoming more evident. However, it has been most uplifting to see and hear how you have been spending this time.

Many of you will have already received a phone call from a member of staff. We will be contacting ALL pupils and their families during this time. This will allow you to discuss how things are going, ask for advice and support or purely to allow our pupils to have a chat with their teachers.

The school is a huge part of our lives and believe us when we say that we are missing our pupils and their enthusiasm for learning, their varied and wonderful personalities and the fun and excitement that they bring daily.

The teachers will be uploading further tasks and activities on the learning platform and these will be available from Monday morning.

We are unable to tell you when school will re-open because, as you know, the lockdown has been extended for at least another three weeks. As stated previously, none of us have ever experienced anything like this before and we will do our very best to support you as best we can. Don’t forget to make contact via the school website ‘Contact Us’ section if you require any help.

We urge you all to follow the Government advice to keep you and your family safe and we continue to look forward to when the school will be able to welcome you all back.

**Yn gywir / Yours sincerely,**

**Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân.**